Cyngor Cymuned Ganllwyd

Gorffennaf 13eg 2022

Presennol

Cyng. S.Roberts,S.P.Jones,D.Morris,C.Edwards a Delyth Griffiths.

Ymddiheuriad Cyng G.Hughes,G.Jones,C.Dixon

Cofnodion Mehefin 2022.

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

Materion yn codi.

Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus ardal Ganllwyd- mae cwmni Gwasanaethu Tir & Choed wedi cwblhau gwaith eleni a mae'r cyngor wedi derbyn anfoneb.

Arwyddion baw ci ardal Ty Cerrig, Ganllwyd-- nid yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith gosod arwyddion yn ardal Ty Cerrig.

Bydd y cyngor yn ail gysylltu a nhw i drafod y mater.

Llwybr troed rhif 76—mae gwaith clirio coed wedi disgyn ar draws y llwybr wedi gwblhau.

Mae'r cyngor cymuned wedi derbyn copiau mapiau llwybrau'r ardal gan Cyngor Gwynedd. Mae pob cynghorwr wedi derbyn copi electroneg o'r mapiau a derbynnodd y clerc copiau papur.

Giat "Green Lane" --mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CNC yn cyd weithio i sicirhau fod giat newydd yn cael ei gosod yn y lleoliad yma.

Cynghorydd Sir.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cadarnhad fod perchnogaeth yr hen ysgol gynradd Ganllwyd yn nwylo y teulu sydd yn berchennog ar tir.

Nid oes manylion pellach am y teulu.

Ardal Ni 2035.

Mae'r cyngor cymuned wedi derbyn e-bost ynglyn a'r wybodaeth isod;

Mae gwaith ymgysylltu wedi dod i ben.

Yn ystod mis Medi bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal gweithdai yn yr ardal. Bydd angen 2 gynghorwr i gynrychioli'r cyngor yn y gweithdy.

Nid oes manylion am ddyddiad,amser na lleoliad ar y funud.

Bydd y clerc yn cysylltu a Rhian George (Cyngor Gwynedd) i gadarnhau fod aelodau'r cyngor plwyf am fynychu'r gweithdu.

Materion ariannol.

Cyson Banc: Mehefin 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4086.08 |
| Derbyniwyd: | |
| Rhodd M.Ward | £500.00 |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £11.00 |
| Yn y banc diwedd mis | £4475.08 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Ysiwriant y cyngor.

Mae taliad ysiwriant y cyngor yn ddyledus yn mis Awst.

Mae aelodau’r cyngor yn cytuno i dalu cwmni Zurich am y policy.

Llythyrau & E.Bost.

Derbynwyd llythyr o ddiolch am rhodd cyngor Ganllwyd gan Mr Arthur Jones ar rhan Capel Libanus.

Unrhyw fater arall.

Mae aelodau’r cyngor yn bryderus amllwybrau cyhoeddus yr ardal;

Mae nifer o’r llwybrau wedi gordyfu ac nid oes modd i gerddwyr fynd drwyddynt.

Mae gatiau wedi'u cloi wedi'u gosod ar rai o'r llwybrau troed cyhoeddus ar eu traws sy'n rhwystro cerddwyr.

Mae amheuaeth bod y llwybrau’n cael eu hesgeuluso’n fwriadol er mwyn arbed arian a’r angen i’w cynnal a’u cadw a bod rhai o’r llwybrau wedi eu cymryd drosodd i bwrpas beicio neu ryw ddefnydd arall.

Bydd y cyngor yn gwneud rhestr o'r llwybrau yr effeithir arnynt ac yn ceisio cyfarfod gyda CNC a Chyngor Gwynedd i drafod y pryderon